OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 2290

# Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) 2001

## RHAN IV

## DARPARIAETHAU PELLACH

### Yr awdurdodau lleol i gyhoeddi gwybodaeth ychwanegol

**12.**—(1) Rhaid i awdurdod lleol gadw cofrestr—

(a) sy'n nodi enw a chyfeiriad pob aelod o weithrediaeth yr awdurdod am y tro a'r ward neu'r etholaeth (os o gwbl) y mae'r aelod hwnnw yn ei chynrychioli;

(b) sy'n nodi enw a chyfeiriad pob aelod o bob pwyllgor gweithrediaeth yr awdurdod am y tro;

(c) sy'n pennu swyddogaethau'r weithrediaeth sydd, am y tro, yn arferadwy gan aelodau unigol o'r weithrediaeth; ac

(ch) sy'n nodi, mewn perthynas â phob swyddogaeth o'r fath, enw'r aelod y mae'n arferadwy trwyddo.

(2) Rhaid cadw ym mhrif swyddfa pob awdurdod lleol grynodeb ysgrifenedig o'r hawliau—

(a) i fynychu cyfarfodydd gweithrediaeth awdurdod lleol a phwyllgorau'r weithrediaeth honno, a

(b) i archwilio a chopïo dogfennau ac i gael dogfennau,

sef hawliau sy'n cael eu rhoi gan y Rheoliadau hyn.

(3) Rhaid i'r gofrestr a gedwir o dan baragraff (1) a'r crynodeb a gedwir o dan baragraff (2) fod yn agored i'r cyhoedd eu harchwilio ym mhrif swyddfa'r awdurdod.

### Darpariaeth atodol

**13.**—(1) Rhaid i ddogfen y mae unrhyw un o ddarpariaethau'r Rheoliadau hyn yn cyfarwyddo iddi fod yn agored i'w harchwilio fod ar gael i'w harchwilio—

(a) ar bob adeg resymol ym mhrif swyddfeydd yr awdurdod lleol; a

(b) yn achos dogfennau sydd i fod ar gael i'w harchwilio yn unol â rheoliad 9, ar ôl i'r person sy'n ceisio archwilio'r dogfennau dalu unrhyw ffi resymol sy'n ofynnol gan yr awdurdod lleol.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), pan fydd dogfen yn agored i'w harchwilio gan berson o dan unrhyw un o ddarpariaethau'r Rheoliadau hyn, caiff y person—

(a) gwneud copi o'r ddogfen gyfan neu ran ohoni, neu

(b) ei gwneud yn ofynnol i'r person sy'n gofalu am y ddogfen ddarparu i'r person sy'n gofyn am ei harchwilio gopi ffotograffig o'r ddogfen neu ddetholiadau ohoni,

ar ôl talu unrhyw ffi resymol sy'n ofynnol gan yr awdurdod lleol.

(3) Nid yw paragraff (2) yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw weithred gael ei chyflawni nac yn awdurdodi cyflawni unrhyw weithred sy'n torri'r hawlfraint mewn unrhyw waith ac eithrio, pan yw perchennog yr hawlfraint yn awdurdod lleol, na fydd unrhyw beth a wneir yn unol â'r paragraff hwnnw yn gyfystyr â thorri'r hawlfraint.

(4) Pan fydd unrhyw ddogfen y mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol iddi fod yn agored i'r cyhoedd ei harchwilio—

(a) yn cael ei darparu i aelodau o'r cyhoedd, neu'n agored iddynt ei harchwilio, neu

(b) yn cael ei darparu er budd unrhyw bapur newydd, yn unol â rheoliad 5 neu 8,

bydd cyhoeddi drwy hynny unrhyw fater difenwol sydd wedi'i gynnwys yn y ddogfen yn freintiedig oni phrofir bod y cyhoeddiad wedi'i wneud â malais.

(5) Rhaid i unrhyw gofnod ysgrifenedig o benderfyniad gweithrediaeth, neu unrhyw adroddiad y mae rheoliad 8 yn ei gwneud yn ofynnol iddo fod ar gael i aelodau o'r cyhoedd ei archwilio, gael ei gadw gan yr awdurdod lleol a rhaid trefnu iddo fod ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd am gyfnod o chwe mlynedd o leiaf gan ddechrau ar y dyddiad y gwnaed y penderfyniad, y mae'r cofnod neu'r adroddiad yn ymwneud ag ef.

(6) Rhaid i unrhyw bapurau cefndir y mae rheoliad 9 yn ei gwneud yn ofynnol iddynt fod ar gael i aelodau o'r cyhoedd eu harchwilio gael eu cadw gan yr awdurdod lleol a bod ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd am gyfnod o bedair blynedd o leiaf gan ddechrau ar y dyddiad y gwnaed y penderfyniad, y mae'r papurau cefndir yn ymwneud ag ef.

(7) Mae'r hawliau sy'n cael eu rhoi i unrhyw berson gan y Rheoliadau hyn i archwilio, copïo neu gael dogfennau yn ychwanegol at unrhyw hawliau o'r fath a all fod gan y person hwnnw ar wahân i'r rheoliad hwn.

### Tramgwyddau Rhan II

**14.**—(1) Mae person sy'n gofalu am ddogfen y mae rheoliad 5, 8 neu 9 yn ei gwneud yn ofynnol iddi fod ar gael i'r cyhoedd ei harchwilio, yn cyflawni tramgwydd os yw'r person hwnnw, heb esgus rhesymol—

(a) yn fwriadol yn rhwystro unrhyw berson rhag arfer hawl sy'n cael ei rhoi gan y Rheoliadau hyn i archwilio'r cyfan neu ran o ddogfen, neu wneud copi ohoni; neu

(b) yn gwrthod darparu copi o'r ddogfen gyfan neu ran ohoni yn unol â rheoliad 13(2).

(2) Bydd person sy'n cyflawni tramgwydd o dan baragraff (1) yn agored o'i gollfarnu'n ddiannod i ddirwy heb fod yn fwy na lefel 1 ar y raddfa safonol.